



Gadael Rhodd

Trwy adael rhodd gallech noddi'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr, helpu i greu cerddoriaeth a dawns o fewn cymunedau, neu godi proffil Cymru a diwylliant Cymreig yn y wlad hon a thu hwnt.

Byddai eich rhodd o gymorth i ni hybu ein nodau, sef datblygu celfyddydau gwerin perfformiadol Cymru fel traddodiad byw i'w rannu a'i fwynhau gan gynulleidfaoedd a pherfformwyr ar bob lefel, a hyrwyddo diwylliant traddodiadol Cymreig yng Nghymru a thros y byd.

Gallwch gynnwys Trac Cymru yn eich Ewyllys trwy gyfeirio eich rhodd i Trac Cymru, sef elusen gofrestredig rhif 1085422. Nid oes rhaid i gynnwys Trac Cymru yn eich Ewyllys fod yn broses gymhleth na drud. Os hoffech wybodaeth fanylach o ran sut i wneud hyn, dylech ofyn am gyngor proffesiynol. Nid yw'r wybodaeth hon yn cyfrif fel cyngor cyfreithiol, ac felly dylech ymgynghori â'ch ymgynghorydd proffesiynol annibynnol.

Gadael rhodd tuag at bwrpasau cyffredinol Trac Cymru

Os dewiswch adael rhodd at bwrpasau cyffredinol ein helusen, byddwn yn defnyddio eich rhodd lle mae'r angen mwyaf amdano. Os ydych yn dymuno gwneud rhodd uniongyrchol o faint penodol, dyma eiriad posib y gallai eich ymgynghorydd proffesiynol ei ddefnyddio: "Rhoddaf i Trac Cymru (Traddodiadau Cerdd Cymru/Music Traditions Wales), Elusen Gofrestredig Rhif 1085422, at bwrpasau cyffredinol Trac Cymru, swm o (swm mewn ffigurau, swm mewn geiriau), ac y bydd derbynneb swyddog priodol am amser Trac Cymru yn rhyddhau fy Ysgutorion yn llwyr."

Mae llawer o bobl yn dewis peidio gadael swm penodol o arian i elusen, ond yn hytrach yn dewis gadael cyfran o weddill eu heiddo. Yn yr achos hwn, mae'n bosib y byddai'r geiriad a ganlyn o gymorth i'ch ymgynghorydd proffesiynol: "Rwyf yn rhoi'r cyfan / cyfran (nodwch y ffracsiwn/canran) o'm heiddo yn gyfan gwbl i Trac Cymru (Traddodiadau Cerdd Cymru/Music Traditions Wales), Elusen Gofrestredig Rhif 1085422, at bwrpasau cyffredinol Trac Cymru, a nodaf y bydd derbynneb swyddog priodol am amser Trac Cymru yn rhyddhau fy Ysgutorion yn llwyr."

Gadael rhodd at agwedd benodol o'n gwaith

Un o'r ffyrdd hawsaf o roi gwybod i ni sut yr hoffech i Trac Cymru ddefnyddio rhodd yw cynnwys llythyr gyda'ch Ewyllys yn nodi eich dymuniadau. Fodd bynnag, hyd yn oed os ydych yn ystyried gadael rhodd at agwedd benodol o'n gwaith, os nad yw'r angen penodol hwnnw yn bodoli erbyn i ni dderbyn eich rhodd, byddai o gymorth pe bai'r cymal yn eich Ewyllys yn caniatáu i Trac Cymru ddefnyddio eich rhodd 'at bwrpasau cyffredinol Trac Cymru'. Cyn belled bod eich dymuniadau yn

eglor, bydd Trac Cymru yn eu cefnogi os ydynt yn bosib. Byddem felly yn awgrymu i chi siarad â ni cyn llunio eich Ewyllys yn derfynol gyda chymorth eich ymgynghorydd proffesiynol.

Goblygiadau gadael rhodd yn eich Ewyllys o ran treth

Gan mai elusen gofrestredig yw Trac Cymru, nid oes treth etifeddiant yn daladwy ar swm eich rhodd, gan fod elusennau wedi eu heithrio rhag talu'r dreth hon. Felly, mae gwerth cofio bod modd i chi ddewis naill ai talu'r dreth i CThEM neu ei rhoi i elusen a gefnogir gennych. Dylech ymgynghori ag ymgynghorydd proffesiynol am gyngor eglur ar y mater hwn. Ceir goblygiadau treth wrth rannu gweddill eich eiddo rhwng buddiolwyr elusennol ac anelusennol hefyd. Eto, bydd modd i'ch ymgynghorydd proffesiynol roi cymorth i chi ynglŷn â hyn.

Rhowch wybod i ni

Os ydych wedi penderfynu cynnwys Trac Cymru yn eich ewyllys, byddai o gymorth i ni pe bai modd i chi roi gwybod i ni. Byddwn yn trin eich ymateb fel gwybodaeth gwbl gyfrinachol, a'ch dewis chi yn llwyr yw cynnwys unrhyw fanylion am eich rhodd. Cwblhewch y ffurflen a ganlyn a'i ddychwelyd atom i'r cyfeiriad isod.

FFURFLEN HYSBYSU: GADAEL RHODD

Teitl _____ Enw(au) cyntaf _____

Cyfenw _____

Cyfeiriad _____

Cod post _____

Ticiwch ba bynnag flychau y teimlwch eu bod yn briodol.

Rwyf wedi gadael rhodd tuag at waith Trac Cymru yn fy Ewyllys.

Mae'n fwriad gennyf adael rhodd at waith Trac Cymru yn fy Ewyllys.

Hoffwn siarad ag aelod o staff Trac Cymru. Fy rhif ffôn yw _____

Rwyf yn fodlon i chi gysylltu â mi dros e-bost. Fy nghyfeiriad yw: _____

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Blanche Rowen, Rheolwr y Cwmni, Trac Cymru, 25 Afal Sur, Y Barri CF63 1FF

Ffôn: 01446 748556 E-bost: trac@trac-cymru.org

Datganiad Diogelu Data: Mae Trac Cymru yn addo mai at bwrpasau Trac Cymru yn unig y defnyddir unrhyw wybodaeth a rhoddwch.

Ymwadiad: Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, nid yw'r wybodaeth hon gyfystyr â derbyn cyngor proffesiynol ynglŷn â'ch amgylchiadau penodol, ac ni fydd Trac Cymru yn gyfrifol os dibynnwch yn llwyr ar y wybodaeth hon.